# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd);<br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, K. P. Hughes, T. H. Jones (Safle 1 a 2), C. McGregor, R. L. Owen, Eric Roberts.<br><br>Aelod Lleol: Y Cynghorwyr R. Ll. Jones a J. V. Owen (Safle 1 yn unig)<br>Aelod Lleol: Y Cynghorydd Hefin Thomas (Safle 3 yn unig). |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Rheoli Datblygu (DFJ)<br>Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu) (EJ)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA)<br>Cymhorthydd Gweinyddol (SWJ) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd J. Penri Williams |

---

**1. 19C1046/EIA/ECON – Cais amlinellol am ddatblygiad defnydd cymysg yn cynnwys marina newydd, eiddo preswyl, gwesty, defnyddiau masnachol, hamdden ac adwerthu ynghyd ag adennill tir cysylltiol ac isadeiledd gwasanaeth ym Mlaen y Môr, Caergybi.**

Cafwyd disgrifiad o'r cais gan y Rheolwr Rheoli Datblygu ac fe ddosbarthodd gynlluniau gweledol a montages o'r cynnig o wahanol olygfeydd ar hyd ardal Blaen y Dwr. Eglurodd bod y cynnig yn ddatblygiad defnydd cymysg ar hyd ffryntiad y dŵr yng nghysgod y Morglawdd Mawr. Byddai rhan sylweddol o'r cynllun yn cael ei leoli ar dir fyddai'n cael ei adennill yn ardal yr harbwr cyfredol a byddai'r gwaith hwnnw yn gofyn am i'r deunydd oedd ei angen i greu'r llwyfannau datblygu gael eu cario i mewn ar y môr.

Rhoddwyd crynodeb o'r cynnig fel isod:-

- Marina gyda 500 angorfa
- 380 o anheddau newydd (cymysgedd o apartmentau 1 a 2 lofft a thai 2, 3, 4 a 5 llofft)
- Tua 280 o lefydd parcio i ymwelwyr
- Tua 380 o lefydd parcio preifat
- 4,040 metr sgwâr o ddefnyddiau masnachol/hamdden
- Gwesty hamdden/busnes 80 gwely
- Canolfan Ieuenctid / Hyfforddi Hwylio 300 metr sgwâr
- Ardal o draeth cyhoeddus gyda chyfleusterau newid/lles cymunedol
- Amgueddfa forwrol newydd 900 metr sgwâr gyda chanolfan ymwelwyr newydd o 1,050 metr sgwâr (yng Ngwesty Soliders Point)
- Gweithdai Morwrol newydd
- Tua 250 o lefydd ychwanegol i barcio ceir.

Byddai'r cynnig hefyd yn cynnwys morglawdd newydd fydd tua 300m o hyd wrth ochr y bistro cyfredol gydag apartmentau 2-5 llawr o uchder ar ei hyd.

Edrychwyd ar y safle o Faes Parcio Bwlch y Sach, Porth y Felin a Soldiers Point, y Morglawdd ac o ardal Newry Bach ar hyd y lôn waelod. Cadarnhaodd y swyddog na fyddai yna unrhyw newidiadau i'r llecynnau gwyrdd cyfredol ar hyd Traeth y Newry ond ychwanegodd y byddai'r cynnig yn ymestyn 100m i mewn i ardal y môr.

Diolchodd y ddau Aelod Lleol, y Cynghorwyr R. Llewelyn Jones a J. V. Owen i'r Aelodau am ymweld â'r safle a diolchwyd hefyd i'r Swyddogion am iddynt egluro'r cynigion mewn cymaint o fanylder. Roeddent yn credu iddi fod yn fantais fawr i gael gweld y safle o bedwar lle gwahanol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelodau, cadarnhaodd yr Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu) bod y cynnig yn bodloni'r gofynion o ran priffyrdd.

**2. 43C11T – Cais llawn i godi adeilad hamdden yn cynnwys dau bwll, caffi a swyddfa a hefyd gym ar y llawr cyntaf ym Mhentref Gwyliau Traeth Llydan, Pentre Gwyddel, Rhoscolyn.**

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu bod y cais hwn yn gais manwl am ganolfan hamdden, caffi, swyddfa a gym a dosbarthodd gopïau o'r adeilad newydd arfaethedig. Dywedodd bod yr ymgeisydd yn barod i roi i fyny y caniatâd cynllunio sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer 75 o unedau teithiol a chyfnewid hynny am yr adeilad newydd arfaethedig.  Byddai'r adeilad yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan ddefnyddwyr y safle ond byddai hefyd yn cynnig aelodaeth i 400 o bobl o du allan i'r safle. Cadarnhaodd y Swyddog na fyddai uchder yr adeilad yn uwch na'r bryncyn oedd y tu ôl i'r safle arfaethedig.

Dywedodd y Swyddog Rheoli Datblygu bod asesiad priffyrdd wedi'i gynnal, ac o ganlyniad i hynny y farn oedd y byddai dileu'r safle i 75 o unedau symudol yn fanteisiol o safbwynt priffyrdd ac y byddai defnyddio'r adeilad gan 400 o aelodau o du allan i'r safle yn achosi llai o broblemau traffig. Cadarnhaodd na fyddai yna, felly, unrhyw wrthwynebiad o safbwynt priffyrdd.

**3. 22C206 – Codi mast anemomedr 40.5m o uchder dros dro ar dir i'r de o Rhos Isaf, Llanddona**

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Datblygu mai uchder y mast arfaethedig fyddai 40.5m gyda thewder y rhaffau yn 152mm.

Edrychodd yr Aelodau ar y safle o Lôn Ffordd Deg ac o Fferm Ffordd Deg ac wedi hynny o ben y bryn ar Lôn Rhos Isaf.

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**